Dyfodol Gwledig - Datganiad i'r Wasg

“Rhaglen Dyfodol Gwledig yn lansio gyda'r 10 cymuned gyntaf wedi'u dethol”

Mae Dyfodol Gwledig - rhaglen newydd a ariennir gan Gronfa Loteri Fawr Cymru - yn lansio heddiw gyda chyhoeddiad am y 10 cymuned gyntaf i gael eu cefnogi. Mae Dyfodol Gwledig yn bosib diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Mae Dyfodol Gwledig yn cwmpasu naw sir wledig yng Nghymru ac yn cael ei chyflwyno gan Asiantaeth Ynni Hafren Gwy a'r Bartneriaeth BRO[1].

Ymgymerodd y tîm â phroses drwyadl o ddethol y cymunedau i gydweithio â nhw, gan ymchwilio i wybodaeth economaidd a chymdeithasol, cysylltu â staff mewn mudiadau cefnogi cymunedol, cynghorau lleol a grwpiau cymunedol ar draws pob sir. Trwy'r broses hon, adnabuwyd pa leoedd a fyddai'n elwa o gael eu cynnwys yn y rhaglen Dyfodol Gwledig yr oeddent am gael eu cefnogi ganddi.

Y 10 lle a gafodd eu dethol yw:

- Ardal Talybolion, Môn
- Ardal Deiniolen, Gwynedd
- Bro Machno, Conwy
- Llangollen Wledig, Sir Ddinbych
- Ardal Glantwymyn, Gogledd Powys
- Pont Senni a Dyffryn Wysg Uchaf, De Powys
- Llandysul, Ceredigion
- Llanymddyfri a'r cylch, Sir Gâr
- Cilgeti/Begeli, Sir Benfro
- Rhannau gwledig gogledd-ddwyrain Sir Fynwy

Bydd y tîm Dyfodol Gwledig yn cydweithio â'r 10 cymuned hon mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus a mudiadau lleol, sydd eisoes yn gweithredu yn y lleoliadau, i ychwanegu gwerth at eu gwaith gyda'r cymunedau.

Mae Panel Ymgynghori Arbenigol wedi'i sefydlu hefyd i helpu llywio'r rhaglen a sicrhau ei bod yn cydweddu â rhaglenni a mentrau eraill ac yn ychwanegu atynt. Mae'r panel wedi'i gadeirio gan Peter Davies sydd hefyd yn bennaeth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Nododd Mr Davies:

“*Bydd cymunedau gwledig yn wynebu heriau enfawr dros y blynyddoedd i ddod a bydd y dull blaengar hwn sydd gan y Gronfa Loteri Fawr yn darparu gwersi gwerthfawr ar y ffordd orau o roi cefnogaeth iddynt. Mae Dyfodol Gwledig hefyd yn cynnig cyfle enfawr i helpu cymunedau i ddod o hyd i atebion i'r pethau sy'n wirioneddol bwysig iddynt*.”

[1] . Mae Hafren Gwy yn elusen sy'n gweithio ar draws Cymru i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, taclo tlodi tanwydd ac addysgu am effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy. Mae'r Bartneriaeth BRO yn gweithio gyda chymunedau ac yn eu cefnogi i fwyafu potensial eu hasedau naturiol a diwylliannol er cyd-fudd.

Mae ail rownd o gymunedau i dderbyn cefnogaeth yn debygol o gael ei chyhoeddi ar ddiwedd 2019, a byddant yn elwa o'r gwersi a ddaw o'r cam cyntaf a fydd yn cyfeirio eu dewis.

Meddai John Rose, Cyfarwyddwr Cronfa Loteri Fawr Cymru:

"Adnabuodd ein hymchwil ac ymgynghori fod gan gymunedau gwledig anghenion amrywiol wrth gynllunio a chyflwyno'r gwelliannau y maent eisiau eu gwneud ac wrth adnabod adnoddau ar gyfer gwneud unrhyw newidiadau, mae'r prosiect hwn yn cyflwyno'r gefnogaeth y mae ei hangen ar y gymuned yn y fformat sydd fwyaf defnyddiol iddynt."

Mae mwy o wybodaeth yn www.ruralfutures.wales/cartref.html

manylion cyswllt davidg@severnwye.org.uk